# Cofnodion cryno - Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg

Lleoliad:

**Ystafell Bwyllgora 1 - y Senedd**

Dyddiad: Dydd Mercher, 10 Chwefror 2016

Amser: 09.05 - 12.15

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:

http://senedd.tv/cy/3364

## Yn bresennol

| **Categori** | **Enwau** |
|---|---|
| Aelodau'r Cynulliad: | Ann Jones AC (Cadeirydd)<br>Angela Burns AC<br>Suzy Davies AC<br>Lynne Neagle AC<br>David Rees AC<br>Aled Roberts AC<br>Simon Thomas AC |
| Tystion: | Yr Athro Sally Holland, Comisiynydd Plant Cymru<br>Rachel Thomas, Comisiynydd Plant Cymru<br>Mark Drakeford AC, Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol<br>Elizabeth Lockwood, Llywodraeth Cymru<br>Alistair Davey, Llywodraeth Cymru<br>Jo Jordan, Llywodraeth Cymru<br>Dr Sarah Watkins, Llywodraeth Cymru |

| | |
|---|---|
| Staff y Pwyllgor: | Marc Wyn Jones (Clerc)<br>Sarah Bartlett (Dirprwy Glerc)<br>Sian Thomas (Ymchwilydd) |

**Trawsgrifiad**

Gweld trawsgrifiad o’r cyfarfod (PDF 3 MB) Gweld fel HTML (427 KB)

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau a dirprwyon

Croesawodd y Cadeirydd yr Aelodau. Cafwyd ymddiheuriadau gan Keith Davies, John Griffiths a Rhodri Glyn Thomas. Nid oedd Aelodau'n dirprwyo ar eu rhan.

## 2 Ymchwiliad dilynol i wasanaethau mabwysiadu yng Nghymru - sesiwn dystiolaeth 3

Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan Gomisiynydd Plant Cymru.

## 3 Ymchwiliad dilynol i wasanaethau mabwysiadu yng Nghymru - sesiwn dystiolaeth 4

Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol.

## 4 Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed yng Nghymru - y wybodaeth ddiweddaraf

Rhoddodd y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol y diweddaraf i'r Pwyllgor am Wasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed. Cytunodd y Gweinidog i ddarparu'r canlynol i'r Pwyllgor:

Copi o Gylchlythyr Iechyd Cymru ynghylch presgripsiynu ar gyfer plant a phobl ifanc mewn perthynas â chyffuriau gwrthiselder.

Yr adroddiad terfynol gan Brifysgol Abertawe ar gyffuriau gwrthseicotig.

Manylion pellach am y therapïau seicolegol a fydd ar gael i bobl ifanc ac a fyddant ar gael ledled Cymru.

Adroddiad y rhaglen *Law yn Llaw at Blant a Phobl Ifanc* a gyhoeddwyd ym mis Ionawr.

Manylion pellach am y data sydd ar gael a gasglwyd ar lefel gofal eilaidd ar gyffuriau presgripsiwn i blant â phobl ifanc ag ADHD.

Cytunodd y Pwyllgor i roi ymateb ysgrifenedig i nifer o gwestiynau na chawsant eu gofyn.

## 5 Papurau i'w nodi

Nodwyd y papurau.

### 5.1 Llythyr at y Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi - Cyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2016-17

### 5.2 Llythyr gan y Llywydd - Adolygiad o Swydd Comisiynydd Plant Cymru

### 5.3 Llythyr gan Gomisiynydd Plant Cymru

### 5.4 Llythyr gan Gadeirydd y Pwyllgor Deisebau at y Gweinidog Addysg a Sgiliau

### 5.5 Llythyr gan y Gweinidog Addysg a Sgiliau - Cyllideb Ddrafft 2016-17

### 5.6 Llythyr oddi wrth Gadeirydd y Cydbwyllgor Hawliau Dynol at y Llywydd

## 6 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42(ix) i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod a'r cyfarfodydd i'w cynnal ddydd Mercher 2 Mawrth a dydd Mercher 16 Mawrth

Derbyniwyd y cynnig.

## 7 Ymchwiliad dilynol i wasanaethau mabwysiadu yng Nghymru - trafod y dystiolaeth

Trafododd y Pwyllgor y dystiolaeth a gafwyd.

## 8 Trafod adroddiad etifeddiaeth y Pwyllgor

Trafododd y Pwyllgor sut y bydd yn llunio'r adroddiad etifeddiaeth.